

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 29 Medi, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams and M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson.

C68 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod y Cabinet gan atgoffa pawb oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i gofnodi trwy'r rhyngwrdd a bydd y recordiad hwn wedi'i archifo ar gyfer ei wyllo yn y dyfodol.

Gofynnodd a fyddai'r holl gyfranogwyr yn 'tawelu' eu hunain pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir neu adborth pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, ac os oedd cyfranogwr yn dymuno siarad, a allent godi eu llaw (i'w gweld ar y sgrin) neu defnyddio'r swyddogaeth 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r aelodau sicrhau bod pob dadl yn cael ei chodi ar lafar ac nid drwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn eu cofnodi'n gywir. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

C69 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.R. Wilkinson.

C70 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Medi, 2022 fel cofnod cywir.

C71 DATGANIADAU BUDDIANT –

Y Cynghorydd R.M. Birch	Roedd y buddiant yn ymwneud ag Eitem Agenda 10 a Rhan II Eitem 15 - Prynu Tir yn Fferm Cosmeston Isaf ar
-------------------------	--

	<p>gyfer Datblygu Addysg ar gyfer Ysgol AAA.</p> <p>Dyweddodd y Cynghorydd Birch ei bod wedi gwneud cais am ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau, nad oedd wedi'i ganiatáu eto, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y materion hyn.</p>
Y Cynghorydd M.R. Wilson	<p>Roedd y diddordeb yn ymwneud ag Eitem Agenda 10 a Rhan II Eitem 15 - Prynu Tir yn Fferm Cosmeston Isaf ar gyfer Datblygu Addysg ar gyfer Ysgol AAA.</p> <p>Dyweddodd y Cynghorydd Wilson ei fod wedi gwneud cais am ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau, nad oedd wedi'i ganiatáu eto, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y materion hyn.</p>

C72 Y DIWEDDARAF AR CHWARAEON A CHWARAE (CYF) -

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan Bwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol o 6 Medi, 2022.

Dyweddodd y Cynghorydd John bod yr adroddiad wedi ei dderbyn gan y Pwyllgor, a oedd wrth eu bodd gyda'r cynnwys a'u bod wedi cyfeirio'r adroddiad at y Cabinet i'w nodi. Dywedodd fod yr adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod 2021/22 oedd wedi bod yn llwyddiannus iawn, ond bod cyfnod 2022/23 wedi bod yn fwy llwyddiannus byth a'i fod yn edrych ymlaen at gael yr adroddiad hwnnw.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Diweddariad Blynyddol Chwaraeon a Chwarae yn cael ei nodi.
- (2) BOD y Tîm Chwaraeon a Chwarae yn cael eu diolch am eu gwaith oedd wedi arwain at yr adroddiad cynhwysfawr.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) I gydnabod gwaith y Tîm Chwaraeon a Chwarae.

**C73 DIWEDDARIAD AR FENTRAU CYDWEITHIO STRATEGOL (AG/BA)
(CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL)**

Roedd gweithgarwch ar y cyd wedi cynyddu'n gyflym mewn ymateb i'r hinsawdd ariannol heriol ac i gydnabod y gwerth y gallai gweithio mewn partneriaeth i rannu sgiliau, arbenigedd a phrofiad ei gael wrth fynd i'r afael â materion cymhleth. Roedd hyn wedi ei gyflymu'n arbennig yn y gorffennol diweddar mewn ymateb i bandemig y Coronafeirws.

Roedd y Compendiwm Mentrau Gweithio Strategol (Atodiad A) yn rhoi trosolwg dros weithgarwch cydweithredol lefel strategol yr oedd y Cyngor yn ymwneud ag ef ac yn manylu ar y gwahanol fentrau sydd ar y gweill.

Rhoddodd yr adroddiad y diweddariad chwe mis i'r Cabinet ar fentrau gweithio cydweithredol strategol a chipio'r cynnydd perthnasol yn erbyn mentrau.

Dywedodd yr Arweinydd mai gweithio ar y cyd gyda phartneriaid oedd y ffordd arferol o weithio bellach, e.e. awdurdodau eraill, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac ati, ac y byddent yn dod yn fwy cyffredin wrth i'r Awdurdod a'r partneriaid weithio i fynd i'r afael â phwysau ariannol. Roedd y Cyngor wedi newid ac addasu'r ffordd y gweithiodd yn dilyn y pandemig gan sefydlu arferion da mwy cadarn.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD y mentrau cydweithio strategol a oedd ar waith i gefnogi'r gwaith o ddarparu a datblygu gwasanaethau'r Cyngor a chanlyniadau ac amcanion lles y Cyngor yn cael eu nodi.
- (2) BOD yr adroddiad yn cael ei ddsbarthu drwy e-bost i holl Aelodau etholedig Cyngor Bro Morgannwg ac aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er eu gwybodaeth.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) . Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Rhoi trosolwg i Aelodau etholedig a phartneriaid strategol o fentrau cydweithio strategol.

**C74 RHYDDHAD DEWISOL TRETH Y CYNGOR I WLADOLION WCRAIN
(AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cynigiodd yr adroddiad yn cynnig bod y Cabinet yn dynodi Dinasyddion Wcráin fel dosbarth o bobl sydd â hawl i gymorth o dan Bolisi Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

No.

Dewisol y Cyngor (Atodiad 1), a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 15 Ebrill, 2019 a'i ailddatgan gan y Cabinet ar 9 Mehefin, 2022.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD Dinasyddion Wcráin yn cael eu dynodi fel dosbarth o bobl sydd â hawl i gymorth o 1 Ebrill, 2022 i 31 Mawrth, 2023, o dan Adran 3 (c) Polisi Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Dewisol y Cyngor.

(2) BYDDAI Gostyngiad y Dreth Gyngor Dewisol yn cael ei ddyfarnu i Ddinasyddion Wcráin dim ond ar ôl i bob gostyngiad ac eithriad perthnasol eraill cael eu dyfarnu.

(3) BYDDAI'R dyfarniad yn dechrau o'r dyddiad y derbyniwyd y cais ac y byddai unrhyw gyfnod wedi'i ôl-ddyddio yn cael ei ystyried yn dibynnu ar rinweddau pob cais unigol.

(4) NI FYDDAI swm y dyfarniad yn fwy na'r swm a fyddai wedi'i ddyfarnu o dan y Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor pe bai'r dosbarth a ddisgrifiwyd fel "Dinasyddion Wcráin" yn gallu hawlio Gostyngiad y Dreth Gyngor yn unol â'r statud presennol.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1-4) I benderfynu ar ddosbarth o achosion yr oedd hawl ganddynt hawlio gostyngiad o dan Adran 3 (c) Polisi Gostyngiad y Dreth Gyngor Dewisol y Cyngor yn unol â'r darpariaethau a gynhwysir yn adran 13A(1) (c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

C75 DIWEDDARIAD UWCHRADDIO ORACLE (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -

Rhoddodd yr adroddiad diweddariad i'r Cabinet ar y cynnydd i weithredu'r system llinell fusnes graidd wedi'i huwchraddio, Oracle Fusion, a oedd yn cefnogi prosesau Ariannol, Cyflogres ac Adnoddau Dynol hanfodol y Cyngor. Roedd gweithredu Oracle Fusion wedi'i aildrefnu i Dachwedd 2022, ddeuddeg mis yn ddiweddarach na'r bwriad gwreiddiol. Amlinellodd yr adroddiad y dull o reoli'r prosiect er mwyn sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus i'r system newydd a sbarduno buddion cysylltiedig.

Roedd cost Mynd yn Fyw wedi cael ei ailasesu a rhagwelwyd y byddai'r gost derfynol yn cyfateb i £3.858m. Roedd adroddiad Pwerau Brys ym mis Ebrill oedd wedi tynnu sylw at rywffaint o'r gost ychwanegol ond bryd hynny roedd disgwyl i'r Mynd yn Fyw fod yn Awst 2022.

No.

Roedd pedwar gyrrwr allweddol i'r gost ychwanegol o £2.358m:

- i. Mewnbwn ychwanegol gan y Partner Gweithredu Evosys, £0.363m.
- ii. Nid oedd digon o gapasiti ac arbenigedd mewnol wedi bod er mwyn cefnogi'r gweithrediad, a dibyniaeth ar adnodd allanol prin, £1.409m
- iii. Roedd yr oedi wedi golygu y bu cymorth parhaus ychwanegol i system bresennol Oracle EBS R12, £0.348m
- iv. Bu rhywfaint o ymestyn y cwmpas gwreiddiol i gynnwys amgylcheddau profi ychwanegol, hyfforddiant allanol ac archifo, £0.224m.

Byddai'r gost ychwanegol yn cael ei hariannu o £1.223m o'r Gronfa TGCh a £0.460m, sef y Gyllideb Bolisi.

Erbyn hyn, rhagwelwyd y bydd costau parhaus cefnogi'r system yn £0.805m, cynnydd o £0.130m o'i gymharu â'r rhagolwg gwreiddiol oherwydd yr angen am ragor o gymorth system allanol i Oracle Fusion. Byddai hyn cael ei dwyn ymlaen fel pwysau yng nghyllideb 2023/24.

Mynegodd yr Arweinydd ei diolch i'r timau o staff a fu'n gweithio i gyflawni'r gwaith uwchraddio'r system ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau presennol.

Dywedodd y Cynghorydd Williams fod staff wedi cael eu ailgyfeirio oherwydd Covid yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a bod hynny wedi cael effaith ar gyflawni dyletswyddau statudol ond eu bod dal wedi gweithio i sicrhau fod eu cyfrifoldebau nhw'n cael eu cyflawni. Dywedodd ei fod hefyd wedi gweld y manteision allai ddeillio o uwchraddio'r feddalwedd mewn sefydliadau eraill ac y byddai'n darparu ymarferoldeb ychwanegol i staff ac yn cynorthwyo digideiddio rhai gwasanaethau.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson y byddai'r uwchraddio'n fwy cynaliadwy gan fod angen llai o waith cynnal a chadw wrth symud ymlaen ac y byddai'r agwedd hunanwasanaeth yn galluogi staff i roi rhai tasgau eu hunain a chyflymu prosesau Adnoddau Dynol.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam ei bod yn bwysig cofio bod staff sy'n gweithio ar gyflawni'r uwchraddio wedi cael eu hadleoli dros y ddwy flynedd flaenorol ac y byddai'n caniatáu i staff fod yn fwy rheoli eu gweinyddiaeth eu hunain.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD y diweddariadau a amlinellir yn yr adroddiad, gan gynnwys y manteision i'w gwireddu o uwchraddio i Oracle Fusion, yn ogystal â dyddiad diwygiedig Mynd yn Fyw mis Tachwedd 2022 yn cael eu nodi.
- (2) BOD y costau ychwanegol yn cael eu cymeradwyo ac i'w talu o'r canlynol:-

No.

- i. Cronfa TGCh £1.223m
- ii. Cyllideb Polisi £0.460m (Rhoddwyd sylw i'r cyllid am £0.675m o'r cynnydd dros y Rhagolwg Gwreiddiol yn adroddiad Pwerau Brys Ebrill 2022).

(3) Y byddai'r costau rheolaidd ychwanegol o £125 mil yn cael eu cynnwys yng Nghyllideb 2023/24.

(4) BOD penodi Oracle i ddarparu'r gefnogaeth ail linell i system Oracle Fusion yn cael ei gymeradwyo.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Roedd y gweithredu'n mynd yn fyw yn hwyrach ac yn costio llawer mwy na'r bwriad gwreiddiol. Roedd yr adroddiad wedi nodi sut y gellid ariannu'r prosiect a gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet at ddefnyddio arian wrth gefn a'r Gyllideb Bolisi.
- (3) Roedd costau rhedeg blynyddol ychwanegol hefyd i gefnogi'r system ac roedd y rheiny wedi eu nodi yn yr adroddiad ac fe fyddai angen eu hadeiladu yng Nghyllideb 2023/24.
- (4) I ganiatáu i gefnogaeth allanol i'r system fod ar waith yn unol â llinell amser y prosiect a galluogi trosglwyddo digonol o weithredu'r prosiect fel rhan o'r trefniadau 'uwchofal'.

C76 POLISI CLUDIANT YSGOL A CHOLEG DIWYGIEDIG (DA/LC) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) -

Yn dilyn cwyn a wnaed i'r Cyngor ynghylch cludiant ysgol o ardal y Rhws i ysgol Gyfun y Bont-faen, gwnaed argymhellion gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mawrth 2022 mewn perthynas â diwygio'r Polisi Cludiant Ysgolion a Cholegau i'w wneud yn gliriach.

Gofynnodd yr Ombwdsmon i'r Polisi gael ei ddiweddarau er mwyn sicrhau cysondeb, eglurder, a chywirdeb y geirio mewn perthynas â phrynu pasys bws, dalgylchoedd ysgol a hawl trafndiaeth.

Felly cafodd y Polisi Cludiant Ysgol a Cholegau diwygiedig arfaethedig ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar 12 Gorffennaf, 2022:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Transportation/school_transport/School-and-College-Transport-Policy-2022-consultation.aspx

Cafwyd cyfanswm o 16 o ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd o ddydd Mawrth 12 Gorffennaf, 2022 i Ddydd Gwener 12 Awst, 2022.

No.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebion i'r ymgynghoriad yn gofyn am eglurhad gyda dim ond dau yn arwain at newidiadau i'r ddogfen Polisi, yn ogystal â ffurflen brynu sedd sbâr ddiwygiedig (Atodiad D). Roedd y mân newidiadau i'r Polisi mewn testun coch o fewn y ddogfen Polisi arfaethedig (Atodiad A).

Er mwyn i'r Polisi Diwygiedig fod mewn grym o 1 Medi, 2023, roedd y polisi newydd angen ei roi ar wefan y Cyngor erbyn 1 Hydref, 2022.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD yr ymatebion i'r ymgynghoriad i bob un. fel y'i ceir yn Atodiad B i'r adroddiad, yn cael eu cytuno.
- (2) BOD y Polisi Cludiant Ysgol a Choleg Diwygiedig fel sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo.
- (3) BOD defnydd o baragraff 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor (gweithdrefn penderfyniadau brys) er mwyn caniatáu i'r polisi diwygiedig gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 1 Hydref, 2022 yn cael ei gymeradwyo.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) I sicrhau bod y Cabinet yn cydnabod yr ymatebion gan yr ymgynghoriad cyhoeddus ac atebion dilynol i bob un.
- (2) I sicrhau y gellir cyflwyno'r ddogfen bolisi ddiwygiedig, sy'n egluro cymhwysedd ar gyfer cludiant ysgol am ddim.
- (3) I sicrhau bod modd gweithredu'r Polisi o 1 Ebrill, 2023.

C77 CYNNIG I YCHWANEGU ST RICHARD GWYN AT Y RHAGLEN GYFALAF (ACG) (CRAFFU – DYGGU A DIWYLLIANT) -

Ar 18 Awst, 2022, hysbyswyd y Cyngor bod y rhaglen amlinellol strategol ddiwygiedig a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru wedi cael ei chymeradwyo a oedd yn adolygu a diwygio'r cyfraddau ymyrraeth ar gyfer prosiectau, yn ôl math, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyfrannu'r gyfradd ymyrraeth gywir ac yn dileu prosiectau nad oedd eu hangen arnynt ym Mand B.

Roedd Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn wedi cael ei nodi fel prosiect brys oherwydd y goblygiadau'n ymwneud â hyfywedd y cynllun, oherwydd gofynion canllawiau newydd TAN 15 y bwriedir eu mabwysiadu ym mis Mehefin 2023. Er mwyn cyflawni'r prosiect o fewn yr amserlen ofynnol, byddai'r cynllun yn cael ei ychwanegu at Raglen Gyfalaf Band B y Cyngor. Byddai amrywiad i'r

No.

rhaglen amlinellol strategol ei gwneud yn ofynnol i gymeradwyo'r newid a byddai angen ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 14 Hydref, 2022.

Byddai'r prosiect yn cynyddu cyfraniad y Cyngor gan £8.250m. Byddai hyn yn cael ei ariannu drwy arian A.106 heb ei ddyrannu, cronfeydd wrth gefn a benthyca. Roedd angen buddsoddi £466 mil yn y cynllun cyn i'r amrywiad i'r rhaglen amlinellol strategol gael ei benderfynu er mwyn sicrhau bod y gwaith dylunio a chynllunio yn cael sylw cyn i ganllawiau newydd TAN15 gael eu mabwysiadu ym mis Mehefin 2023.

Dywedodd yr Arweinydd mai hwn oedd yr olaf o ysgolion uwchradd Bro Morgannwg i gael eu hail-adeiladu a bod y plant a'r teuluoedd dan sylw wedi bod yn aros yn amyneddgar er mwyn i hyn cael ei dwyn ymlaen. Roedd hi'n falch o allu dweud, unwaith y byddai'r cynnig hwn wedi'i gwblhau, y byddai pob ysgol uwchradd ym Mro Morgannwg wedi cael eu hadnewyddu, eu hailfodelu neu eu huwchraddio ers 2010.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD y sefyllfa mewn perthynas â Rhaglen Band B Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu y Cyngor yn cael ei nodi.
- (2) BOD proffil Band B diwygiedig Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'r Cyngor yn cael ei gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- (3) BOD cynnwys gwaith dylunio a dichonoldeb cychwynnol mewn perthynas â'r Prosiect Ysgol Ffydd 3-16 gan gynnwys cyllideb o £466 mil i mewn i Raglen Gyfalaf 2022/23 yn cael ei gymeradwyo.
- (4) BOD y defnydd o erthygl 15.14.2 A(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor (gweithdrefn benderfyniadau brys) yn cael ei awdurdodi mewn perthynas ag Argymhellion (2) a (3).

Y rheswm dros y penderfyniad

- (1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) I sicrhau bod modd i'r Cyngor gyflawni rhaglen Band B fwy cadarn a pharhau i ddarparu gwelliannau i ysgolion ym Mro Morgannwg a oedd yn adlewyrchu'r galw gan ddisgyblion a chyflwr yr ysgolion.
- (3) I ganiatáu i waith dichonoldeb cychwynnol ar y cynllun gael ei ddatblygu.
- (4) I ganiatáu i'r Cyngor fwrw ymlaen gyda chostau'r ymgynghoriaeth dylunio a chynllunio ar gyfer y prosiect cyn gynted â phosib er mwyn lleihau risg i'r Cyngor

No.

oherwydd goblygiadau'r canllawiau newydd TAN 15 sy'n cael eu rhyddhau ym mis Mehefin 2023.

**C78 PRYNU TIR AR FFERM COSMESTON ISAF AR GYFER DATBLYGIAD
ADDYSG AR GYFER YSGOL AAA (ADG) (CRAFFU - DYGGU A
DIWYLLIANT) -**

(Tynnodd y Cyngorwyr Birch a Wilson yn ôl o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.)

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd / Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol i drafod, cytuno a gweithredu'r holl ddogfennau cyfreithiol angenrheidiol er mwyn hwyluso prynu Tir yn Fferm Cosmeston Isaf yn amodol ar dderbyn caniatâd cynllunio amlinellol. Byddai'r tir yn cael ei ddefnyddio i gyflawni prosiect Ehangu Ysgol y Deri sydd wedi ei gynnwys ym Mand B y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'r Cyngor. Cafodd rhagor o fanylion am y prisiad tir eu hamlinellu yn yr eitem Rhan II ar yr agenda hwn.

Byddai'r prosiect yn darparu 150 o lefydd i ateb y galw sy'n deillio o safle presennol Ysgol y Deri a mynd i'r afael â phroblemau capasiti ar y safle. Mae cost y prosiect ar gyfer y cynllun wedi cynyddu o £12.1m i £21.9m ac roedd Achos Busnes wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i ofyn am arian grant ychwanegol ar gyfer costau uwch y prosiect. Nid oedd y costau cynyddol hyn yn gysylltiedig â phrynu'r tir ond roedd yn adlewyrchu cynnydd mewn costau yn y sector a gofynion yn ymwneud â draenio cynaliadwy ac ystyriaethau mynediad ar y safle.

Dywedodd yr Arweinydd fod y rhaglen ddogfen a ganmolwyd yn fawr am Ysgol y Deri yn cael ei dangos eto ar y BBC ar hyn o bryd.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD – BOD yr adroddiad a'r argymhellion yn cael eu hystyriwyd ar y cyd ag adroddiad Rhan II sydd yn ddiweddarach ar yr agenda.

Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn ystyried adroddiadau Rhan I a II gyda'i gilydd.

**C79 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU
CYMDEITHASOL 2021/22 – FERSIWN DERFYNOL (GCI) (CRAFFU – BYW YN
IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) -**

Cafodd Fersiwn Her o adroddiad y Cyfarwyddwr ei ystyried gan Bwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol ym mis Gorffennaf. Rhoddodd Aelodau'r Pwyllgor adborth cadarnhaol.

No.

Roedd fersiwn derfynol yn dilyn adborth gan bartneriaid yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o flaenoriaethau yr oedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u pennu. Roedd y rhain wedi'u gosod yng nghyd-destun y pandemig a'r newidiadau sylweddol yn y galw. Gofynnwyd i'r Cabinet gytuno ar y blaenoriaethau gwella hyn.

Yn ôl y Cynghorydd John, adran oedd hwn sy'n gweithio dan straen aruthrol ond yn gweithio'n galed i gwrdd â gofynion. Roedd yna brinder gofalwyr ym Mro Morgannwg fel sydd yng Nghymru'n gyffredinol.

Cytunodd y Cynghorydd Sivagnamam fod hwn yn faes dan bwysau aruthrol lle nad oedd llwyddiannau bob amser yn cael cyhoeddusrwydd ond dylid gwneud. Roedd problemau'n ymwneud â recriwtio, a bydd adnoddau i fynd i'r afael â hynny'n parhau i gael eu monitro a'u trin.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) Nodi cynnwys yr adroddiad.
- (2) BOD Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2021/22 ynghlwm fel Atodiad A i'r Adroddiad yn cael ei gymeradwyo.
- (3) BOD y blaenoriaethau gwella ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2021/22 yn cael eu cytuno.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) I sicrhau bod gan Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2021/22 gymeradwyaeth a chytundeb y Cabinet.
- (3) I sicrhau bod y blaenoriaethau fel y nodwyd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu cymeradwyo gan y Cabinet.

**C80 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011-2026:
YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR GANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL
DRAFFT AR DDATBLYGU MANWERTHU A CHANOL TREFI A DATBLYGU
ECONOMAIDD, TIR CYFLOGAETH AC ADEILADAU (YCCGR) (CRAFFU – YR
AMGLYCHEDD AC ADFYWIO) -**

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos ar Ganllawiau Cynllunio Atodol drafft newydd ar Ddatblygu Manwerthu a Chanol Trefi a Datblygu Economaidd, Tir Cyflogaeth ac Eiddo. Roedd yr angen i baratoi'r ddau CCA newydd hyn wedi'u nodi'n flaenorol yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI).

Crynhodd yr adroddiad bwrpas a nodau'r CCAu drafft a oedd ynghlwm wrth Atodiadau 1 a 2 yr adroddiad. Dylid nodi y byddai CCA Datblygu Manwerthu a Chanol y Dref yn disodli CCA Heol Holltwn Uchaf presennol a oedd bellach yn hen. Cyfeiriodd adroddiad y Cabinet hefyd at rai diweddariadau polisi diweddar i'r Canllaw Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy presennol a gynhaliwyd drwy bwerau dirprwyedig gan y Cyfarwyddwr Lle.

Diolchodd y Cynghorydd John i'r Swyddogion am gynhyrchu'r adroddiad cynhwysfawr.

Yn ôl y Cynghorydd Wilson, mae ymgynghoriad yn hollbwysig gan y byddai'n penderfynu ar geisiadau cynllunio yn y dyfodol. Roedd barn y cyhoedd yn bwysig, roedd angen ei chyhoeddi'n eang ac yn waith darllen hanfodol i bob Cynghorydd a Chynghorydd Tref a Chymuned.

Dywedodd yr Aelod Cabinet bod ymgynghori yn bwysig, a'i bod yn bwysig addasu i newidiadau diweddar, ee mae mwy o bobl bellach yn gweithio o adref a sut roedd hynny'n effeithio ar ganolfannau cyflogaeth a'r stryd fawr.

Cytunodd yr Arweinydd fod y CCAu drafft yn adlewyrchu natur newidiol canol trefi.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y CCAu drafft newydd ynghlwm â'r adroddiad at ddibenion ymgynghori cyhoeddus, gyda phwerau dirprwyedig ar gyfer y Cyfarwyddwr Lle, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio i wneud mân newidiadau teipograffigol neu fân newidiadau eraill yn ôl yr angen, cyn eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghori cyhoeddus, yn cael eu cymeradwyo.

(2) BOD pob Aelod, gan gynnwys Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio, yn cael gwahoddiad i fynychu sesiwn briffio Aelodau i'w cynghori o'r ymgynghoriad sydd i ddod a chynnwys y CCAu drafft.

No.

(3) BOD adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus i roi gwybod am ganfyddiadau'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus ac ystyried unrhyw newidiadau i'r CCAu drafft cyn iddynt fabwysiadu'n ffurfiol at ddibenion rheoli datblygu.

(4) BOD y CCA Heol Holltwn Uchaf presennol yn cael ei dynnu'n ôl a'i ddisodli gan y CCA Datblygu Manwerthu a Chanol y Dref newydd pan gaiff ei fabwysiadu.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn galluogi ymgynghoriad cyhoeddus ar y CCAu drafft yn unol â phrotocol y Cyngor ar gyfer cynhyrchu CCAu a chywmmhwyso pwysau ychwanegol i'r CCAu fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau.

(2) Rhoi gwybod i'r holl Aelodau am y CCA drafft a'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus sydd ar ddod.

(3) Cyngori'r Cabinet am yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer mabwysiadu'r CCAu yn ffurfiol fel ystyriaeth berthnasol ym mhenderfyniadau rheoli datblygu.

(4) Yn unol â Chofnod y Cyngor Rhif 85, 28 Mehefin 2017.

C81 CERFLUNIAU, HENEBION, ENWAU STRYDOEDD AC ENWAU ADEILADAU - PANEL ADOLYGU – DIWEDDARIAD (YCCGR) (CRAFFU – BYW YN IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) -

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Panel Adolygu ar 16 Medi, 2021 ac yna cafodd ei ddilyn gan Etholiadau Llywodraeth Leol a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2022. O ganlyniad i'r etholiadau hynny a'r newidiadau mewn Aelodau etholedig, ac i adlewyrchu portffolios a dull newydd y Cabinet, roedd angen diweddarau aelodaeth a Chylch Gorchwyl y Panel yn unol â hynny.

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd nodi'r gwaith a wnaed hyd yma gan y Panel Adolygu ac Awdurdodau Lleol eraill de-ddwyrain Cymru ar y mater, a chymeradwyo nodyn atgoffa pellach i'w anfon i Gynghorau Tref a Chymuned i gyflwyno unrhyw farn bellach i lywio gwaith y Panel yn ogystal â gwahodd unrhyw farn o'r gymuned ehangach drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod Cyngor Tref Penarth wedi rhoi ychydig o adborth yn ystod yr alwad gychwynnol am faterion i'w hystyried ac roedd yn diolch iddynt am y cyflwyniad hwnnw.

Dywedodd fod hyn yn waith pwysig yng nghyd-destun amcan allweddol cyffredinol y Weinyddiaeth newydd i gynyddu amlygrwydd a chyfranogiad, elfen allweddol o'i chyfrifoldebau Portffolio a roedd yn waith tuag at gamau i wella cydraddoldeb ar draws Bro Morgannwg yn ysbryd y strategaeth gyfranogiad newydd. Ni ddylid

No.

gweld y prosiect mewn termau negyddol ond yn fwy fel sgwrs gyda chymunedau am sut roedd y Cyngor yn awyddus i goffáu'r rhai o fewn cymunedau ethnig oedd wedi cyfrannu at gymdeithas ac i adlewyrchu amrywiaeth o fewn ei chymunedau.

Dywedodd y Cyngorydd Birch fod Cyngor Tref Penarth wedi bod â diddordeb mawr yn y broses, gan edrych ar enwau lleoedd ym Mhenarth a oedd yn aml yn gysylltiedig â bonheddwyr, uchelwyr a brwydrau hanesyddol. Teimlwyd bod addysgu pobl ymhellach ynglŷn â pham y defnyddiwyd yr enwau hynny fel y buont, yn ddiddorol. Roedd gan ysgolion cynradd ddiddordeb mewn gallu gosod rhannau o'r dref mewn cyd-destun i'r plant.

Cytunodd yr Arweinydd fod cael amrywiaeth o goffáu gyda chymunedau yn bwysig er mwyn helpu pobl i ddeall o ble roedden nhw'n dod.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD y newidiadau a gynigiwyd i aelodaeth y Panel Adolygu a'r Cylch Gorchwyl blaenorol yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol a ddigwyddodd ar 5 Mai, 2022 fel y'i disgrifir yn yr adroddiad ac Atodiad A yn cael ei gymeradwyo.
- (2) BOD y Gwasanaethau Democrataidd, yn amodol ar gymeradwyo Penderfyniad (1), yn cysylltu ag Arweinwyr grwpiau gwleidyddol y Cyngor i ofyn am un enwebiad yr un i ymuno â'r Panel Adolygu.
- (3) BOD y gwaith a gwblhawyd hyd yma gan y Panel Adolygu yn cael ei nodi.
- (4) BOD galwad newydd i Gyngorau Tref a Chymuned ac aelodau o'r cyhoedd yn cael ei wneud i gyflwyno materion i'w hystyried gan y Panel cyn awdurdodi unrhyw argymhellion i'r Cabinet.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Diweddarau aelodaeth y Panel Adolygu er mwyn adlewyrchu newidiadau diweddar Aelodau etholedig ac i adlewyrchu'r newidiadau hynny yng Nghylch Gorchwyl y Panel.
- (2) I ganfod enwebiadau gan y grwpiau gwleidyddol a diweddarau aelodaeth y Panel Adolygu.
- (3) I nodi'r gwaith a wnaed gan y Panel Adolygu hyd yma.
- (4) I ofyn am unrhyw sylwadau gan Gyngorau Tref a Chymuned ac i gyhoeddi galwad gyhoeddus am sylwadau.

C82 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

C83 PRYNU TIR AR FFERM COSMESTON ISAF AR GYFER DATBLYGIAD ADDYSG AR GYFER YSGOL AAA (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG - PARAGRAFF 14) -

(Tynnodd y Cyngorwyr Birch a Wilson yn ôl o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.)

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd / Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol i drafod, cytuno a gweithredu'r holl ddogfennau cyfreithiol angenrheidiol i hwyluso prynu Tir yn Fferm Cosmeston Isaf yn amodol ar dderbyn caniatâd cynllunio amlinellol. Byddai'r tir yn cael ei ddefnyddio i gyflawni prosiect Ehangu Ysgol y Deri sydd wedi ei gynnwys ym Mand B y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'r Cyngor.

Byddai'r prosiect yn darparu 150 o lefydd i ateb y galw sy'n deillio o safle presennol Ysgol y Deri a mynd i'r afael â phroblemau capasiti ar y safle. Roedd cost y prosiect ar gyfer y cynllun wedi cynyddu o £12.1m i £21.9m ac roedd Achos Busnes wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i ofyn am arian grant ychwanegol ar gyfer costau uwch y prosiect. Nid oedd y costau cynyddol hynny yn gysylltiedig â phrynu'r tir ond roedd yn adlewyrchu cynnydd mewn costau yn y sector a gofynion yn ymwneud â draenio cynaliadwy ac ystyriaethau mynediad ar y safle.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) Y DYLID cymeradwyo'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid / Swyddog A151 a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro i barhau â'r trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru gyda'r nod o gytuno ar Benawdau Telerau priodol i gaffael y Safle yn y Farchnad Gwerth, o ystyried y defnydd arfaethedig o'r Safle, cyfyngiadau presennol y safle a chostau annormal.

(2) Y DYLID awdurdodi'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd / Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi a gweithredu'r ddogfennaeth gyfreithiol briodol i gaffael y Safle, yn amodol ar dderbyn y caniatâd cynllunio gofynnol a chytundeb y Pennaeth Telerau.

No.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) I barhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu Pennawdau Telerau ar gyfer caffael y Safle ar gyfer Ysgol Anghenion Addysgol Arbennig, at ddiben darparu llefydd i ddisgyblion lle y mae mawr eu hangen fel rhan o Ysgol y Deri.
- (2) Caniatáu i'r Cyngor gaffael y tir yn amodol i'r caniatâd cynllunio perthnasol.